
# Siarad drwy gicio
## gan Myrddin ap Dafydd



Dyna fo unwaith eto! Mi glywais i'r glic.
Mae strap dros fol Mam a rhaid i minnau roi cic.

Pam na allith hi ddallt fod y lle yma'n llawn
Heb iddi fy ngwasgu i'w hasgwrn bron iawn?

A! Injan yn tanio. Y ddaear yn siglo.
Mae hyn dipyn gwell – mae 'na rythm i'w deimlo.

Dwi'n clywed eu cegau'n gwneud bybls erbyn hyn –
Siarad y maen nhw, efo'u pennau mewn llyn.

Ac er nad dwi'n dallt yr un gair sy'n y sgwrs,
Mae miwsig eu hiaith yn fy swyno, wrth gwrs.

Wel! Ploncyti-plonc! Mae s n hyrdi gyrdi
Ar ôl pwyso y switj. Beth am ddawns fach reit gr fi?

Y daith yma'n hir ac mae'n straen ar fy nghnawd,
Tywyllwch fel … Hei! dwi 'di colli fy mawd!

O! dyma fo! Ymestyn a sugno.
Mae'n rhaid bod ni yno – mae'r ddaear 'di stopio.

Wa! Lle mae'r d r yma'n mynd? "Wedi torri"?
Dwi'n si r mai dyna roedd Mam yn ei weiddi …

Na! Wnewch chi slofi! Dwi'n teimlo pob bwmp!
A be ydi'r brys? Dach chi'n cofio mod i'n lwmp?

Ac O! Dyna wasgfa! O ble ddaeth y golau?
Dwi'n llithro. Dwi'n symud. Dwi'n cicio fy nghoesau …

Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd